Daniel Rowland, 1713–90
Clerigwr Methodistaidd, pregethwr grymus, awdur ac emynydd

Bryd caf fi, anwylaf Iesu,
Gennyt le
Yn y ne',
Hyfryd gartre'r teulu.

Iesu agor i mi'n rasol
Ddrws y nen
Led y pen –
Gwna fi'n un â'th bobl!

Daniel Rowland

Daniel Rowland oedd yr ieuengaf o chwech o blant Daniel a Janet Jones, Pantbybeudy, Nantcwnlle, Aberteifi. Yr oedd ei dad yn offeiriad yn yr Eglwys ac yn dal bywoliaeth Nantcwnlle a Llangeitho. Ychydig a wyddom am ei ddyddiau cynnar, ond yn ôl traddodiad derbyniodd addysg gan ei dad a'i frawd John ac yn ysgol ramadeg Hwlffordd. Cafodd ei urddo'n ddiacon gan Esgob Tyddewi, Nicholas Claggett, ym 1734, ac yn offeiriad ym 1735 yn yr un plwyfi â'i dad. Ym 1734 hefyd, priododd ag Eleanor Davies, Caerllugest, a oedd o deulu cefnog, a chawsant bum merch a dau fab.

Cafodd dröedigaeth wrth wrando ar Gruffudd Jones, Llanddowror, yn pregethu yn Llanddewibrefi, ac o ganlyniad daeth ei bregethu ei hun yn llawer mwy grymus a dylanwadol gan dynnu'r tyrfaoedd i wrando arno; byddai rhwng dwy a phedair mil o gymunwyr yn gyson yn Llangeitho. Cynnwys ei bregethau ar y dechrau oedd cyfiawnder a sancteiddrwydd Duw, a barai fraw ymhlith ei wrandawyr, ond ar gyngor cyfaill o'r enw Phillip Puw dechreuodd bwysleisio gras a chariad Duw. Yna, ar gais gwraig o Ystrad-ffin, dechreuodd bregethu y tu allan i'w blwyf, gan gymell pobl i gredu yn Iesu Grist. Wedi hynny aeth ati i bregethu ar hyd a

lled y wlad, a daethpwyd i'w ystyried yn un o bregethwyr mwyaf Cymru yn ystod y ddeunawfed ganrif. Gwnaeth hyn oll o dan wg yr awdurdodau eglwysig. Datblygiad pwysig yn ei hanes a hanes y Diwygiad Efengylaidd oedd iddo sefydlu dosbarth i hyfforddi ei blwyfolion yn y ffydd. Dyma wreiddyn y seiadau a fu'n rhan allweddol o lwyddiant y Methodistiaid yn ddiweddarach. Yr oedd dau ddechreuad i'r seiadau yng Nghymru, sef Talgarth a Llangeitho.

Ym 1737 cyfarfu Rowlands â Howell Harris am y tro cyntaf yn eglwys Defynnog ac am bedair ar ddeg o flynyddoedd buont yn cydweithio gydag eraill i ledaenu'r Efengyl ac i hyrwyddo'r Diwygiad Methodistaidd a gafodd gymaint o effaith ar Gymru. Ond bu anghydfod rhyngddo a Howell Harris ar sail diwinyddiaeth, gweinyddiaeth y seiadau, perthynas Howell Harris â Madam Griffith a disgyblaeth, ac fe chwerwodd eu perthynas gan droi yn rhwyg erbyn 1752. Boddodd ei frawd John Rowland yn Aberystwyth ym 1760 a disgwyliwyd i'w fywoliaeth gael ei rhoi i Daniel, ond nid felly y bu oherwydd fe'i rhoddwyd i'w fab Nathaniel. Bu'n gurad i'w fab am gyfnod. Cododd Daniel Rowland gapel yn Llangeitho ym 1763, a phan bwriwyd ef allan o'r Eglwys oherwydd ei waith a'i ddaliadau Methodistaidd daeth y capel hwn yn ganolfan Methodistiaeth yng Nghymru. Cyhoeddwyd nifer o gyfrolau o'i bregethau a'i emynau, gan gynnwys *Llwybyr Hyffordd i'r Cymry* (1740) a *Sail, Dibenion*, (1742) ac yr oedd yn un o arloeswyr yr emyn Cymraeg. Bu farw ar 16 Hydref 1790 yn 77 oed, a'i gladdu yn Llangeitho ar 20 Hydref.